# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (202)

# Pleisleisiau A Thrafodion Dydd Mercher, 10 Mai 2006

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

**Eitem 1 - Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

The first 9 questions were answered. Questions 2+3+6+8 were grouped together for answer.

**........................................**

**2.35pm**

## Eitem 2 - Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

The first 12 questions were answered. Questions 1+13 have been grouped together for answer and Question 7 was withdrawn.

**.......................................**

**3.09pm**

## Eitem 3 - Motion to extend the duration of the Railway Infrastructure Committee

**NDM3020 John Marek (Wrecsam); Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn penderfynu diddymu pwynt 1(f) a phwynt 2 y penderfyniad a wnaeth dydd Mawrth 6ed -Rhagfyr 2005 ynghylch NDM2735 (sefydlu'r Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwell Gwasanaethau i Deithwyr);

2. Yn penderfynu:
a) y bydd y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwell Gwasanaethau i Deithwyr yn dod i ben ar 30 Mehefin 2006, a
b) y cynhelir dadl ar yr adroddiad terfynol a gyflwynwyd gan y Pwyllgor cyn 30 Mehefin 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**.......................................**

**3.10pm**

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 2006

**NDM3009 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor The Animal By-Products (Wales) Regulations 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ebrill 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM3010 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mai 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, The Animal By-Products (Wales) Regulations 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, The Animal By-Products (Wales) Regulations 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Ebrill 2006.
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ebrill 2006.; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mai 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**……………………………………**

## 3.17pm

**Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân**

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006

**NDM3011 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 3 Mai 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau (Regulations)**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM3012 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 3 Mai 2006, a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

.....................................

## Eitem 6 - Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006

**NDM3013 Jane Hutt (Bro Morgannwg**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 3 Mai 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau (Regulations)**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM3014 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 3 Mai 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**……………………………………**

**3.28pm**

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

**NDM3015 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Mai 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

**NDM3016 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2000 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Mai 2006, a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**.......................................**

**3.35pm**

## Eitem 8 - Dadl am Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd ym mywyd cymunedau

**NDM3017 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cadarnhau swyddogaeth addysgiadol a diwylliannol gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol ym mywyd y gymuned.

2. Yn nodi datblygu partneriaethau strategol gan randdeiliaid allweddol er mwyn darparu gwell gwasanaethau i bob defnyddiwr.

3. Yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wasanaethau arloesol er mwyn i fwy o bobl allu manteisio ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1, 2)**
**(3, 4)**
**(5, 6, 7 & 8)**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gwasanaethau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau'n parhau i fod ar gael i gymunedau gwledig Cymru.

**Gwelliant 1**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru'n gallu gweld arddangosiadau diwylliannol a hanesyddol yn lleol.

**Gwelliant 2**
O Blaid 13; Ymatal 11; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd y Gwelliant 2**

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r arian sydd ar gael i hyrwyddo gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol.

**Gwelliant 3**
**O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd y Gwelliant 3**

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i weld a fyddai'n ymarferol creu Archif Genedlaethol.

**Gwelliant 4**
**O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd y Gwelliant 4**

**5. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i atal unrhyw doriadau i staff llyfrgell proffesiynol ym Mhrifysgolion Cymru a fydd yn tanseilio ansawdd yr addysg a ddarperir ac yn effeithio ar ansawdd y cymorth i fyfyrwyr.

**Gwelliant 5**
**O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd y Gwelliant 5**

**6. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod llyfrgelloedd yn cadw digon o lyfrau, eu bod ar agor ar adegau sy’n hwylus i’r cyhoedd a bod llyfrgelloedd gwledig yn cael eu cadw yn hytrach na'u cau.

**Gwelliant 6**
**O Blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 51**
**Gwrthodwyd y Gwelliant 6**

**7. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod pwysigrwydd manteisio i’r eithaf ar arbenigedd rheoli gwybodaeth gwasanaethau archifau Cymru, yn enwedig yng nghyswllt ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn mynegi pryder nad yw'r holl ddeunydd yn yr archifau sy'n cyfeirio at gofnodion byw a chofnodion lled-fyw yn cael ei gatalogio'n briodol.

**Gwelliant 7**
**O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52**
**Gwrthodwyd y Gwelliant 7**

**8. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu strwythur swyddfeydd cofnodion y sir ac archwilio manteision sefydlu swyddfa cofnodion cyhoeddus genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Gwelliant 8**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd y Gwelliant 8**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 44; Ymatal 8; Yn erbyn 0 ; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**.......................................**

**4.37pm**

**Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân**
Eitem 9 - **Dadl am Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad** a **Chynnig i ddiwygio'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad**

**NDM3019 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.6 ac 16.1, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 2006, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ebrill 2006, a

2. Yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ebrill 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 46; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig**

........................................

Eitem 10 - **Cynnig i gymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog 4**

**NDM3018 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Ionawr 2006; a

2. Yn cymeradwyo'r gwelliannau i Rheol Sefydlog 4 a'r gwelliannau i'r Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiant gan Aelodau, fel y'u nodir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 47; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig (carried)**

........................................

**4.55pm**

Eitem 11 - **Y ddadl fer** - NDM3021 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd): Morglawdd Hafren - Y Ffordd Ymlaen:

........................................

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.21pm**

**...............................................................**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

## 2.00pm ddydd Mawrth, 16 Mai 2006

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**